

Cyngor Cymuned Ganllwyd

Ionawr 10fed 2024

Presennol

Cyng D.Morris,S.Jones, G.Jones, C.Edwards a S.Roberts a D.Griffiths.

Ymddiheuriad C.Dixon.

Cofnodion Rhagfyr 2023.

Cynnigodd Cyng D.Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim

Materion yn codi.

Ffordd ger blwch post, Hermon- Mae Mr Kojs peirianydd Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau fod gwaith clirio ffosydd a.y.b wedi cael ei gwblhau yn yr ardal.

Cynghorwr Sir.

Canolfan ymwelwyr Coed y Brenin,Ganllwyd.

Trafododd y cyngor cymuned y cyhoeddiad gan CNC eu bod yn adolygu'r hyfywedd ac yn ystyried yr opsiynau gan gynnwys y posibilrwydd o gau canolfan ymwelwyr Coed y Brenin.

Yn cyfarfod mis diwethaf y cyngor amlinellodd y Cynghorydd Griffiths amserlen y cyfarfodydd arfaethedig gyda Mr Martin Cox o CNC sy'n gyfranogwr blaenllaw o'r adolygiad sydd ar ddod.

Cadarnhaodd Cyng Griffiths ei bod hi a Mr Mabon Ap Gwynfor (AM) wedi cyfarfod a Mr Cox ac swyddog arall Mrs Elsie Grace, swyddog Adran Fasnachol, CNC.

Ddaeth y wybodaeth canlynol i'r amlwg;

Nid oes unrhyw benderfyniadau mawr wedi'u gwneud hyd yn hyn. Bydd y tîm masnachol yn adolygu'r sefyllfa ariannol o amgylch y Ganolfan Ymwelwyr ac yn

adrodd yn ôl i dîm gweithredol CNC cyn diwedd mis Mawrth, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ddyfodol Coed y Brenin yn fuan wedyn.

Mae angen £1.5m er mwyn cynnal y Ganolfan Ymwelwyr bresennol yn y 5 mlynedd nesaf, nid oes cyllid o'r fath ar gael ar hyn o bryd.

Disgwylir i'r strwythur presennol gael ei adnewyddu ymhen 5 mlynedd.

Mae nifer o ymwelwyr i'r Ganolfan wedi disgyn o 150,000 yn y flwyddyn 2019 i 100,000 yn 2022.

Er mwyn gwneud y ganolfan ymwelwyr yn hyfyw yn ariannol bydd gofyn i bob ymwelydd wario £4 yr ymweliad, er na ddarparwyd unrhyw ffigurau gan swyddogion CNC mae'n ymddangos bod y targed hwn o beidio â chael ei gyrraedd.

Ar hyn o bryd mae'r Ganolfan yn rhedeg ar golled flynyddol o £450,000 er na ddarparwyd unrhyw ffigurau gan CNC i gadarnhau'r ffaith hon.

Fel rhan o'r adolygiad hwn dim ond staff llawn amser sy'n cael eu cyflogi yn y Ganolfan fydd yn cael eu cadw.

Daeth i'r amlwg mai ychydig iawn o ymgynghori cyhoeddus sydd wedi cynnal CNC mewn perthynas â'r mater hwn. Yn wir, dim ond sefydliadau mawr fel y Parc Cenedlaethol sydd wedi cael eu hymgyngori er mwyn ceisio eu barn.

Teimlai'r cyngor cymuned nad oedd wedi cael digon o wybodaeth i benderfynu pa gamau y dylai eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwn. Mae'r cyngor wedi penderfynu gwahodd uwch gynrychiolwyr CNC i gyfarfod cyhoeddus a drefnwyd ar gyfer 1 Chwefror 2024 er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd o 2% yn eu dyraniad cyllideb o'r Llywodraeth ganolog ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r dyraniad yn golygu y bydd Cyngor Gwynedd yn wynebu diffyg posib o £6.5m ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Er mwyn delio â'r sefyllfa yma bydd Cyngor Gwynedd yn cyfarfod ym mis Chwefror i benderfynu sut y delir â'r diffyg.

Cais cynllunio NP5/60/L29D-yr hen Ysgol Gynradd, Ganllwyd.

Mae'r cyngor cymuned wedi derbyn gwybodaeth mai Mr Jonathon Cawley swyddog y Parc yw'r swyddog a fydd yn delio a'r cais yma.

Mae potensial i'r Parc gwrdd i drafod y cais hwn rhywbryd ym mis Mawrth 2024. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths wrth y cyfarfod ei bod eisoes wedi gwrthwynebu'r cais hwn. Mae'r cyngor cymuned wedi trafod y cais - ei rinweddau a'r anfanteision ac wedi penderfynu gwrthwynebu'r cais. Bydd y Clerc yn cyflwyno adroddiad o'r gwrthwynebiadau i'r Adran Gynllunio.

Materion Ariannol.

Cais praesept blwyddyn ariannol 2024/25

Mae'r cais am praesept o £3250 am y flwyddyn uchod wedi eu gwblhau.

Cyllid misol.

Cyson Banc: Rhagfyr 2023

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £3598.85

Derbyniwyd:

Ad daliad cynnal llwybrau cyhoeddus £577.10

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £5.00

Yn y Banc diwedd mis £4070.95

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

Grantiau ariannol.

Wedi debyn sawl e-bost yn cynnig grantiau arian gan sawl asiantaeth er mwyn cychwyn a datblygu prosiectau cymunedol. Mae'r cyngor am edrych i fewn i unrhyw brosiectau lleol a fydd yn addas.

Llythyrau & E-bost.

Dim.

Unrhyw fater arall.

Dywedodd Cyngorydd Jones ei fod wedi rhoi gwybod i Asiantaeth Amgylchedd Cyngor Gwynedd am ddigwyddiad tipio anghyfreithlon ar ffordd yr A470, Gelligemlyn.